# Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Hydref 2002**

# Cynnwys

Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian....................1
Cyflwyniad....................1
Adroddiadau a gyhoeddwyd a'r gwaith sy'n mynd rhagddo....................1
Rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian....................2
Cost rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol....................6
Casgliad....................6
Atodiad A: Cefndir ar bynciau posibl ar gyfer archwiliadau gwerth am arian....................7
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol....................7
Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth....................11
Addysg a Hyfforddiant....................13
Datblygiad Economaidd....................16
Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig....................19
Llywodraeth Leol a Thai....................21
Diwylliant, chwaraeon a'r Iaith Gymraeg....................22
Gweinyddiaeth y Cynulliad ac astudiaethau trawsbynciol....................24

# Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian

## Cyflwyniad

1. Mae'r memorandwm hwn yn amlinellu fy rhaglen arfaethedig o archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2003-2004 a'r blynyddoedd dilynol. Fel y gwneuthum mewn blynyddoedd diweddar, byddwn yn croesawu sylwadau a barn y Pwyllgor ar fy argymhellion cyn i mi gadarnhau'r rhaglen yn derfynol. Yn hyn o beth, cyn troi at fy argymhellion ar gyfer y flwyddyn nesaf, amlinellaf yn y paragraffau canlynol adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac amlinelliad cryno o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

## Adroddiadau a gyhoeddwyd a gwaith sy'n mynd rhagddo

2. Ers hydref y llynedd rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

- *Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan Celfyddydau Gweledol*
- *Rheoli ystad y GIG yng Nghymru*
- Nodyn ar *Themâu Caffael*
- *Parhau i adfywio Bae Caerdydd*
- *Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: sicrhau'r buddiannau mwyaf i Gymru*
- *Adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y GIG yng Nghymru*
- *Gwaredu ysbyty canolbarth Cymru (*i'w gyhoeddi 16 Hydref 2002)
- *Osiris: y contract PFI ar gyfer technoleg gwybodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol (*i'w gyhoeddi 18 Hydref 2002)

Mae'r Pwyllgor wedi cymryd tystiolaeth ar y chwe adroddiad cyntaf uchod. Trefnwyd bod yr adroddiad ar waredu ysbyty canolbarth Cymru (Talgarth) yn cael ei ystyried yn yr un cyfarfod ym mis Hydref ag y bwriada'r Pwyllgor ystyried y papur hwn, tra bod yr adroddiad olaf ar y rhestr yn debygol o fod yn destun cyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd.

3. Mae staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru – yr wyf yn ddibynnol ar eu gwasanaethau – ar hyn o bryd, yn cymryd rhan, ar gamau amrywiol, mewn nifer o archwiliadau eraill. Bydd y gwaith hwn sy'n mynd rhagddo yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer sesiynau tystiolaeth nesaf y Pwyllgor yn y flwyddyn newydd hyd at wyliau'r haf, a hydref nesaf. Mae'r archwiliadau sydd ar waith ar hyn o bryd, ynghyd â'u cynnydd hyd at Hydref 2002, dros y dudalen.

| ***Archwiliad*** | ***Cynnydd*** |
|---|---|
| Adolygiad o gymorth a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer y project LG | Yr adroddiad i'w gyhoeddi yn ystod Hydref 2002 |
| Adroddiad diweddaru ar broject adeilad newydd y Cynulliad | Yr adroddiad i'w gyhoeddi yn ystod Hydref 2002 |
| Rheoli'r ystad ym maes addysg bellach | Yr adroddiad i'w gyhoeddi yn ystod hydref/gaeaf 2002/2003 |
| Gwella tai y sector preifat | Yr adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Glanhau ysbytai | Yr adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Rheoli casgliadau'r Amgueddfeydd a'r Orielau Cenedlaethol | Yr adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Cynnal a gwella priffyrdd a thraffyrdd | Gwaith maes yn mynd rhagddo |
| Absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG | Gwaith maes yn y cyfnodau cynnar |
| Caffael cyffuriau yn y GIG | Gwaith maes yn y cyfnodau cynnar |
| Rheoli gwastraff | Gwaith ymchwilio rhagarweiniol i gwmpas yr astudiaeth yn mynd rhagddo |

## Rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian

4. Mae Tabl 1 isod yn rhestru'r pynciau posibl i'w harchwilio yn y dyfodol; ceir crynodeb byr o bob un yn Atodiad A. Mae'r papur hwn, fodd bynnag, yn canolbwyntio ar yr astudiaethau hynny y cynigiaf fod Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gweithio arnynt yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004; caiff y rhain eu nodi gan y **print trwm** yn Nhabl 1. Er mwyn gosod yr astudiaethau hyn yn eu cyd-destun, mae Tabl 1 hefyd yn cynnwys rhai cynigion ar gyfer archwiliadau y gallai Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru eu cynnal yn ystod 2004-2005 ac mewn blynyddoedd dilynol. Fodd bynnag, bwriadaf barhau i ymgynghori â'r Pwyllgor bob blwyddyn ar fy archwiliadau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Byddaf felly'n dychwelyd i'r Pwyllgor yn ystod yr hydref nesaf er mwyn trafod fy nghynigion ar gyfer 2004-2005.

5. Rwyf wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol bellach yn Nhabl 1. Er mwyn rhoi syniad o berthnasedd pob maes astudiaeth eang i'r Pwyllgor, dangosaf gyllideb arwyddol y Cynulliad ar gyfer 2003-04. Y rheswm am hyn yw oherwydd mai un o'm nodau wrth lunio'r cynigion hyn yw sicrhau, o un flwyddyn i'r llall, y bydd gan y Pwyllgor y cyfle i gymryd tystiolaeth ar bob categori o wariant y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdano. Ac wrth geisio sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei gwmpasu'n systematig, fel y gwneuthum mewn blynyddoedd diweddar, rwyf wedi dadansoddi'r maes archwilio fesul categori eang yn ôl ffocws yr archwiliad o ran y defnydd o adnoddau a hefyd yn ôl pum amcan y Cynulliad, neu feysydd archwilio, fel yr amlinellir yn ei gynllun strategol cyntaf, *Gwell Cymru.*

**Tabl 1: Rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian, yn ôl maes cyllidebau'r Cynulliad**

| *Allwedd:* | |
|---|---|
| Categorïau bras sy'n nodi **ffocws yr archwiliad**: | Pum prif **amcan** neu faes gweithredu'r Cynulliad: |
| A darparu rhaglenni a gwasanaethau | 1 cyfleoedd gwell ar gyfer dysgu |
| B rheoli asedion | 2 economi gwell a chryfach |
| C caffael asedion a gwasanaethau | 3 gwell iechyd a lles |
| D adleoli a gwaredu asedion ac adnoddau | 4 gwell ansawdd bywyd |
| | 5 llywodraeth gwell a symlach |

| ***Maes gwario*** | ***Cyllideb arwyddol 2003-04 £m*** | ***Ffocws yr archwiliad*** | ***Amcan y Cynulliad*** |
|---|---|---|---|
| **IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | 4,052 | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003* | | | |
| • Absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG | | A | 3 |
| • Caffael cyffuriau | | C | 3 |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*** | | | |
| • **Amserau aros yn y GIG** | | A | 3 |
| • **Caffael gwasanaethau** | | C | 3 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005* | | | |
| • Mynd i'r afael â phroblem trais yn y GIG | | A | 3 |
| • Gofal symudol a llawdriniaeth dydd | | A | 3 |
| • Oedi wrth drosglwyddo gofal o'r GIG | | A B | 3 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2005-2006 a blynyddoedd dilynol* | | | |
| • Ailstrwythuro'r GIG | | A,B,D | 3,5 |
| • Deintyddion | | AD | 3 |
| • Adolygiad o Wasanaeth Gwaed Cymru | | A | 3 |
| • Recrwitio a chadw staff yn y GIG | | B | 3 |
| • Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | | A | 3 |
| • Gwasanaethau iechyd meddwl | | A,B | 3 |
| • Esgeulustod clinigol – gwaith dilynol | | A | 3 |
| **YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH** | 959 | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003* | | | |
| • Rheoleiddio'r broses o reoli gwastraff gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru | | A | 4 |
| • Adolygu gweithrediadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru | | A | 4 |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*** | | | |
| • **Amddiffyn rhag llifogydd** | | A | 4 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn ystod 2004-2005 a blynyddoedd dilynol* | | | |
| • Adolygiad o effaith ymgyrchoedd diogelwch ar y ffordd | | A | 3,4 |
| • Ansawdd traethau Cymru | | A | 4 |
| • Archwiliad o weinyddiad y Grant Trafnidiaeth | | A | 4 |

| *Maes gwario* | ***Cyllideb arwyddol 2003-04 £m*** | ***Ffocws yr archwiliad*** | ***Amcan y Cynulliad*** |
|---|---|---|---|
| **ADDYSG A HYFFORDDIANT** | 1,148 | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003* | | | |
| • Caffael yn y sector addysg uwch | | C | 1 |
| • Rheoli ystad yn y sector addysg uwch | | B D | 1 |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*** | | | |
| • **Rheoli absenoldeb staff oherwydd salwch yn y sector addysg bellach ac addysg uwch** | | A | 1 |
| • **Y defnydd effeithiol o grantiau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd** | | A | 1 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005* | | | |
| • Dysgu fel gyrfa yng Nghymru | | A C | 1 |
| • Ehangu'r nifer sy'n dewis astudio addysg bellach a/neu addysg uwch | | A | 1 |
| • Cyllid cyfalaf i ysgolion | | C | 1 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2005-2006 ac wedi hynny* | | | |
| • Uno sefydliadau yn y sector addysg bellach neu addysg uwch | | B | 1 |
| • Effaith y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol | | A | 1 |
| • Gwella niferoedd y myfyrwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau mewn addysg bellach ac/neu addysg uwch | | A | 1 |
| • Gyrfaoedd Cymru | | A | 1 |
| • Estyn – caffael arolygwyr cofrestredig | | A | 1 |
| **DATBLYGIAD ECONOMAIDD** | 557 | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003* | | | |
| • Effeithiolrwydd Cymorth Dewisol Rhanbarthol yng Nghymru | | A | 2 |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*** | | | |
| • **Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd – gwaith dilynol** | | A | 2,4 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005* | | | |
| • Cymorth ariannol i fusnesau bach | | A | 2 |
| • Effeithiolrwydd y gwasanaeth porth busnes | | A | 2,5 |
| • Dangosyddion perfformiad Awdurdod Datblygu Cymru | | A | 2 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn ystod 2005-2006 ac wedi hynny* | | | |
| • Hyrwyddo masnach | | A | 2 |
| • Cysylltiadau addysg-busnes | | A | 1,2,5 |
| • Darpariaeth adeiladau busnes | | C | 2 |
| • Bwrdd Croeso Cymru: gweithgaredd marchnata | | A C | 2 |
| • Cysylltedd band eang | | A C | 2 |
| • Ynni adnewyddadwy | | A | 2 |

| *Maes gwario* | *Cyllideb arwyddol 2003-04 £m* | *Ffocws yr archwiliad* | *Amcan y Cynulliad* |
|---|---|---|---|
| **AMAETHYDDIAETH A DATBLYGIAD GWLEDIG** | 230 | | |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*** | | | |
| • **Project Jigsaw** | | A | 2,4 |
| • **Taliadau iawndal ar gyfer y diciau** | | | |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005* | | | |
| • System Weinyddu a Rheoli Integredig | | A | 24 |
| • Cynllun Adfer Cefn Gwlad | | A, D | 2,4 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2005-2006 ac wedi hynny* | | | |
| • Cyswllt Ffermio | | A | 2,4 |
| • Adolygiad o Gynllun Premiwm Blynyddol Defaid | | A | 2 |
| • Adolygiad o Tir Mynydd | | A,D | 2 |
| **LLYWODRAETH LEOL A THAI** | 3,729 | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003* | | | |
| • Gwella tai y sector preifat | | A | 4 |
| • Cynllun effeithlonrwydd ynni cartref | | A | 4 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005 neu wedi hynny* | | | |
| • Rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig | | A | 4,5 |
| • Y broses o drosglwyddo stoc tai cyngor | | A | 4,5 |
| • Cynllun Homebuy | | A | 4 |
| **DIWYLLIANT, CHWARAEON A'R IAITH GYMRAEG** | 76 | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003* | | | |
| • Rheoli casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru | | A,B | 4 |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*** | | | |
| • **Cyllid loteri y Cyngor Chwaraeon** | | A | 4 |
| *Gwaith y gellir ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005 neu wedi hynny* | | | |
| • Ehangu mynediad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru | | A | 1,4 |
| • Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg | | A | 1,4 |
| • Cyngor y Celfyddydau – gwaith dilynol | | A | 1,4 |
| • Cyngor Chwaraeon – meysydd blaenoriaeth | | A D | 4 |
| • Project Canolfan Mileniwm Cymru | | A C | 4 |
| **GWEINYDDIAETH Y CYNULLIAD AC ASTUDIAETHAU TRAWSBYNCIOL** | 220 | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003* | | | |
| • Adroddiad diweddaru ar siambr ddadlau newydd y Cynulliad | | C | 5 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005 neu wedi hynny* | | | |
| • PFI yn y GIG | | | |
| • Caffael siambr ddadlau newydd y Cynulliad (gwaith dilynol) | | B C | 5 |
| • Llywodraeth ar y we yng Nghymru | | A | 5 |
| • Datblygu cynaliadwy | | A C D | 3,4 |
| • Rhoi Cymunedau'n Gyntaf | | A | 1,2,3,4 |

## Cost rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol

6. Rwyf yn cyflwyno fy Amcangyfrif ar gyfer 2003-04 i'r Pwyllgor i'w ystyried hefyd ar 24 Hydref. Mae fy rhaglen gwerth am arian arfaethedig ar gyfer 2003-04 – sy'n tybio y bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried adroddiadau o'r fath ar saith achlysur o leiaf bob blwyddyn – yn gyson â lefel y cyllid ar gyfer fy ngwaith gwerth am arian yn yr Amcangyfrif hwnnw. Ar y lefel hon o gyllid, bydd fy rhaglen yn cynnwys cymysgedd o rai adolygiadau lefel uchel, rhai archwiliadau eang eu cwmpas a rhai ymchwiliadau mwy manwl. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi egluro i'r Pwyllgor ar achlysuron blaenorol, nid yw fy nghynigion yn derfynol. Byddaf yn parhau i ymateb lle bynnag y bo'n bosibl i ddatblygiadau sylweddol nas rhagwelir a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor, gan addasu fy rhaglen lle bynnag y bo angen er mwyn sicrhau fy mod yn parhau o fewn y dyraniad cyllid a amlinellir yn fy Amcangyfrif.

## Casgliad

7. Gwahoddir y Pwyllgor i hysbysu Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r pynciau sydd o ddiddordeb arbennig i Aelodau ac i awgrymu unrhyw bynciau eraill nad ydynt ymhlith y rheiny a restrwyd i'w cynnwys o bosibl yn y rhaglen ar gyfer 2003-2004 ac yn y dyfodol.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*11 Hydref 2002*

# Atodiad A:  Cefndir ar bynciau posibl ar gyfer archwiliadau gwerth am arian

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*

### 1. Amserau aros yn y GIG

Ym Medi 2000 lansiwyd *Amserau aros yng Nghymru: strategaeth ar gyfer y dyfodol*, yn amlinellu mesurau i wella'r gwaith o reoli apwyntiadau cleifion mewnol ac allanol, cynyddu capasiti a lleihau nifer y bobl sy'n aros dros 12 mis am driniaeth. Erbyn Mehefin 2002, fodd bynnag, roedd apwyntiadau cleifion allanol wedi codi o 180,000 i 225,000 (20 y cant)tra bod tua 72,000 o bobl yn aros am apwyntiad cleifion mewnol ar yr un dyddiad. Mae'r Cynulliad yn dyrannu £150 miliwn ychwanegol yn 2001-02, £400 miliwn yn 2002-03 a £665 miliwn yn 2003-04 er mwyn gwneud cynnydd uniongyrchol i wella'r GIG a lleihau amserau aros. Cafwyd rhywfaint o lwyddiant wrth leihau amserau aros dros 18 mis mewn meysydd a dargedwyd megis orthopedeg. Byddai'r astudiaeth yn ddilyniant i archwiliad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i amserau aros yn Lloegr, *Department of Health: inpatient and outpatient waiting in the NHS* (Gorffennaf 2001). Byddai'n amlygu arfer da o ran mesurau i leihau amserau aros ac yn edrych ar systemau ac arferion cofnodi rhestrau aros yng Nghymru.

### 2. Caffael gwasanaethau

Mae GIG Cymru yn gwneud defnydd sylweddol o ynni, dwr a gwasanaethau telathrebu. Mae ysbytai yn gwario £14 miliwn y flwyddyn ar ynni, y mae dros hanner ohono ar gyfer trydan. Mae pwysau ar ysbytai i ddefnyddio mwy o ynni (ar gyfer systemau awyru ac offer meddygol newydd, er enghraifft), tra gosodwyd targedau ar yr un pryd i leihau treuliant am resymau amgylcheddol. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar gaffael un neu fwy o wasanaethau'r cyfleustodau, y broses o reoli treuliant a defnydd gan gyrff y GIG, gan ganolbwyntio ar gontractau cyflenwi cyfleustodau, mesur defnydd a monitro costau.

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005*

### 3. Mynd i'r afael â phroblem trais yn y GIG

Bu'r achosion o drais yn ysbytai'r GIG yn codi mewn blynyddoedd diweddar. Yn gynnar ym 1999 ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd at Gadeiryddion pob Ymddiriedolaeth ac Awdurdod GIG yng Nghymru yn gofyn iddynt ystyried sut i gymryd camau i nodi a mynd i'r afael â phroblemau trais. Byddai'r astudiaeth yn archwilio effeithiolrwydd y mesurau ataliol a gymerir gan y GIG yn erbyn achosion  treisgar.

### 4. Gofal symudol a llawdriniaeth dydd

Mae nifer y bobl sy'n derbyn triniaeth fel achosion dydd mewn ysbytai yng Nghymru wedi codi mewn blynyddoedd diweddar i tua 144,000 yn ystod y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2002. Ym 1990, cyhoeddodd y Comisiwn Archwilio restr o 20 gweithdrefn a fyddai'n cynnig y gwerth gorau am arian pe caent eu cyflawni fel achosion dydd, ond canfu arolwg diweddar na fu ysbytai yn gwneud defnydd digonol o lawdriniaeth dydd (Cylchgrawn y Gwasanaethau Iechyd, 10 Mai 2001). Mae'n debyg bod cyfradd yr achosion o lawdriniaeth dydd yn anghyson ledled Cymru. Nododd dogfen *Amserau Aros yng Nghymru : strategaeth ar gyfer y dyfodol* (Medi 2000) y dylid ehangu llawdriniaeth dydd a llawdriniaeth arhosiad byr a dylid datblygu mwy o Unedau Gofal Symudol (e.e. yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd) ar gyfer cleifion sydd angen aros am un noson yn unig. Byddai'r astudiaeth yn ystyried yr amrywiaeth mewn triniaeth achosion dydd ledled Cymru ac yn archwilio'r potensial am ehangu pellach.

## 5. Oedi wrth drosglwyddo gofal o'r GIG

Canfu'r Ymchwiliad Gwelyau Cenedlaethol yn Lloegr bod pobl hŷn yn defnyddio dau o bob tri gwely cyffredinol a gwelyau aciwt a phe bai cyfleusterau eraill wedi bod ar waith byddai o leiaf 20 y cant o'r diwrnodau gwely hyn wedi bod yn amhriodol. Awgryma'r dystiolaeth hwyrach bod yr henoed yn cael eu cadw mewn gwelyau ysbytai ledled Cymru oherwydd nad oes digon o leoedd mewn cartrefi preswyl neu gartrefi gofal nyrsio. Nododd dogfen *Amserau aros yng Nghymru: strategaeth ar gyfer y dyfodol* (Medi 2000) y dylid ehangu gwasanaethau gofal canolradd gyda'r GIG, llywodraeth leol a sectorau preifat neu wirfoddol gan ganolbwyntio ar gynnal neu adfer annibyniaeth ac adsefydlu. Dyrannodd y Cynulliad grant penodol o £5 miliwn yn 2001-02 i awdurdodau lleol i helpu lleihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Byddai'r astudiaeth yn asesu graddau a chost oedi gollwng cleifion yn y GIG yng Nghymru a'r cynnydd a wnaed i sicrhau bod gwelyau yn cael eu defnyddio'n briodol a bod opsiynau eraill ar gael.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2005-2006 ac wedi hynny*

## 6. Ailstrwythuro'r GIG

Mae Cynllun GIG Cymru, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym Mawrth 2001, yn cynnwys y cynnig i ddiddymu'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru erbyn Ebrill 2003. Mae'r Cynulliad yn rhagweld y bydd yn mabwysiadu mwy o rôl strategol yn genedlaethol tra bydd yn cryfhau'r 22 grwp iechyd lleol er mwyn eu datblygu'n fyrddau iechyd lleol, gyda chyfrifoldeb dros gomisiynu, diogelu a darparu gofal iechyd yn eu hardaloedd. Trosglwyddir holl swyddogaethau'r awdurdodau iechyd, fel y bo'n briodol, i'r Cynulliad, ymddiriedolaethau'r GIG neu fyrddau iechyd lleol. Cynhelir cynllun peilot ar gyfer y trefniadau newydd yn 2002-03, pan fydd ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys a'r grwp iechyd lleol dros Bowys yn cael eu diddymu er mwyn sefydlu bwrdd iechyd lleol arloesol. Byddai'r astudiaeth yn archwilio trefniadau trosglwyddo'r holl awdurdodau iechyd a'u dirwyn i ben ynghyd ag asesu'r gwerth am arian a gyflawnir drwy ailstrwythuro.

## 7. Deintyddion

Y gwariant amcangyfrifedig ar Wasanaethau Deintyddol Cyffredinol ym 1999-2000 oedd £86 miliwn gros: disgwylir i daliadau cleifion gynyddu i £23 miliwn, a mae'r Cynulliad yn darparu'r £63 miliwn sy'n weddill. Mae'r Cynulliad wedi gweithredu'r broses o ehangu gwiriadau deintyddol am ddim ac mae'n lansio strategaeth ddeintyddol ym mis Medi 2002 i geisio mynd i'r afael â phroblemau ynglyn â mynediad a recriwtio a chadw deintyddion yn y GIG. Yng Nghymru, ceir prinder sylweddol o ddeintyddion GIG mewn sawl rhan o'r wlad a cheir pryder ynglyn â'r ffaith bod deintyddion yn gadael y GIG oherwydd nad ydynt yn fodlon ar y system ariannu cyfredol. Sicrhawyd bod cyllid ar gael ers 1995 i ddenu mwy o ddeintyddion ond mae'r problemau yn parhau o hyd. Gallai astudiaeth asesu'r ddarpariaeth gyfredol o ddeintyddion.

## 8. Adolygiad o Wasanaeth Gwaed Cymru

Gyda gwariant o ryw £12 miliwn y flwyddyn, Gwasanaeth Gwaed Cymru yw'r casglwr a'r darparwr gwaed monopoli statudol yng Nghymru (ac eithrio Gogledd Cymru sy'n derbyn ei waed wrth yr Awdurdod Gwaed Cenedlaethol, y corff sy'n casglu ac yn darparu gwaed yn Lloegr). Rhoddodd pobl yn Ne, Dwyrain, Gorllewin a Chanolbarth Cymru dros 117,000 o roddion gwaed yn ystod 2000-01. Rheolir Gwasanaeth Gwaed Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar p'un a yw Gwasanaeth Gwaed Cymru yn bodloni galwadau ysbytai a pha fesurau mae'n eu cymryd i wella ei berfformiad.

## 9. Recriwtio a chadw staff yn y GIG

Gwnaeth Cynllun GIG Cymru ymrwymiad i gynyddu lefelau staffio a niferoedd y staff gofal iechyd proffesiynol sy'n derbyn hyfforddiant 65 y cant i feddygon a 35 y cant i nyrsys erbyn 2003-04. Mae pob ymddiriedolaeth wedi datblygu Strategaeth Recriwtio a Chadw i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â

recriwtio a chadw, ac mae'r Cynulliad wedi datblygu Fframwaith ar gyfer Recriwtio a Chadw. Yn y tymor byr i ganolig, mae llawer o gamau yn cael eu cymryd er mwyn lleddfu'r broblem: dull recriwtio dramor; cyrsiau Dychwelyd i Ymarfer i nyrsys; cynyddu hyblygrwydd cyflogaeth; Arolwg Swyddi Gwag y GIG i nodi meysydd lle ceir prinder; mentrau gofal plant; a hyrwyddo gyrfaoedd yn y GIG. Ers mis Chwefror 2002, mae'r broses o recriwtio a chadw meddygon teulu yn cael ei hybu gan "croeso euraid"ac ystod o grantiau. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar ba mor dda y mae ymddiriedolaethau yn datblygu gyda'u strategaethau a pha fath o elw a gyflawnir gan y cyllid ychwanegol. Byddai hefyd yn ystyried yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Comisiwn Archwilio ar y broses recriwtio a chadw ar draws y sector cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Medi 2002.

**10. Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Ffurfiwyd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar 1 Ebrill 1998 pan unwyd y pedair ymddiriedolaeth ambiwlans blaenorol yng Nghymru. Mae'n cyflogi 2,200 aelod o staff ac yn darparu gwasanaethau ambiwlans a gwasanaethau cysylltiedig ac mae ganddi asedion sefydlog sydd werth tua £27 miliwn. Yn 2000-01, £66 miliwn oedd incwm yr Ymddiriedolaeth a chytunwyd ar ei chynllun adfer ariannol ym mis Mawrth 2001. Er mai'r targed yw ymateb i 75 y cant o alwadau brys mewn pryd, dim ond 52.4 y cant yr ymatebwyd iddynt. Noda'r Ymddiriedolaeth fod angen £9.8 miliwn ychwanegol arni i gyflwyno safonau ymateb gofynnol manwl ar draws holl ardaloedd y Bwrdd Iechyd Lleol cyn ystyried y cynnydd o 17 y cant mewn gweithgaredd galwadau "Categori A". Bydd yr astudiaeth yn adolygu perfformiad yr Ymddiriedolaeth.

**11. Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

Yn ystod 1999-2000, gwariodd awdurdodau iechyd yng Nghymru dros £200 miliwn ar wasanaethau iechyd meddwl. Lansiodd Strategaeth Salwch Meddwl 1989 i Gymru y polisi o ofal cymunedol sydd wedi arwain at gau pum ysbyty seiciatrig mawr a bwriedir cau dau arall hefyd. Ceir pryder nad yw'r lleihad yn nifer y gwelyau ysbyty wedi'i gyfateb â darpariaeth ddigonol o ansawdd rhesymol yn yr ysbytai neu'r unedau eraill ac yn y gymuned oherwydd eu bod wedi gostwng o 4,500 ym 1987-88 i 2,500 ym 1999-2000. Cyhoeddwyd strategaeth iechyd meddwl newydd ym Medi 2001 a chyhoeddwyd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl yn Ebrill 2002. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar y broses o gau'r ysbytai mawr a gwerthuso ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru.

**12. Esgeulustod clinigol – gwaith dilynol**

Amlygodd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru *Esgeulustod clinigol o fewn y GIG yng Nghymru* (Chwefror 2001) gost sylweddol esgeulustod clinigol i'r GIG ac amlinellodd y camau yr oedd y Cynulliad yn eu cymryd i ddelio â'r broblem. Byddai'r archwiliad hwn yn ategu'r adroddiad hwnnw, i asesu p'un a wnaed gwelliannau.

## Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*

### 1. Amddiffyn rhag llifogydd

Mae'r Cynulliad yn cefnogi mesurau a gyfiawnheir yn economaidd ac sy'n dderbyniol i'r amgylchedd yn erbyn erydiad gan y môr a llifogydd drwy gynorthwyo Asiantaeth Amgylchedd Cymru, awdurdodau lleol a byrddau draenio mewnol. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried y broses o gynllunio a rheoli'r rhaglen ar gyfer system ddraenio prifwythiennol, dull amddiffyn rhag llifogydd a diogelu arfordiroedd. Bydd yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y camau a gymerir i oresgyn llifogydd ers y llifogydd mawr yn ystod hydref 2000.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 ac wedi hynny*

### 2. Adolygiad o effaith ymgyrchoedd diogelwch y ffordd

Yn 2000, roedd nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol o ganlyniad i ddamweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru, yn 53 y cant yn is na chyfartaledd 1981-85, er bod nifer y bobl a anafwyd ychydig mewn damweiniau 17 y cant yn uwch. Yn 2000 pennwyd targedau newydd i'w cyflawni erbyn 2010, yn seiliedig ar y cyfartaleddau ar gyfer 1994-98: gostyngiad o 40 y cant yn nifer y bobl a gaiff eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau; gostyngiad o 50 y cant yn nifer y plant a gaiff eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol; a gostyngiad o 10 y cant yn nifer y mân ddamweiniau. Mae strategaethau a chynlluniau newydd yn cael eu datblygu ar gyfer diogelwch ar y ffordd yng Nghymru a bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar eu gweithrediad a'u heffaith gychwynnol.

### 3. Ansawdd traethau Cymru

Mae ansawdd traethau Cymru yn allweddol i ddatblygiad diwydiant mwyaf Cymru – twristiaeth. Mae'r Cynulliad wedi nodi 75 o draethau y mae'n ofynnol iddynt fodloni safonau ansawdd dwr y Comisiwn Ewropeaidd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, drwy ei phwerau rheoli llygredd, yn monitro'r gwaith o gyflawni safonau ansawdd dwr Ewropeaidd. Bodlonodd bob un o'r traethau hyn heblaw am un safonau gorfodol Ewropeaidd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, sy'n cymharu'n dda â gweddill y Deyrnas Unedig. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli traethau, yn cynnwys materion sbwriel a diogelwch. Yng Nghymru , caiff 114 o draethau eraill eu samplo'n wirfoddol gan awdurdodau lleol er mwyn archwilio eu hansawdd a chânt eu cymharu â safonau Ewropeaidd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. Mae gollyngiadau gan y cwmni dwr sector preifat yng Nghymru, Dwr Cymru ymhlith y nifer o elfennau sy'n dylanwadu ar ansawdd dwr. Mae Dwr Cymru (a reoleiddir gan OFWAT) yn gyfrifol am y gollyngiadau carthion yng Nghymru, a hwy sydd hefyd yn gyfrifol am gwrdd â chostau'r broses, ac ar hyn o bryd mae'n ymgymryd â rhaglen amgylcheddol bum mlynedd i wella ansawdd y dyfroedd arfordirol. Fodd bynnag, ceir llawer o ffynonellau eraill o lygredd yn nyfroedd arfordirol Cymru. Mae'r Cynulliad yn ariannu Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru i gyflawni gwaith ymchwiliadol ar ansawdd a llygredd dwr. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor effeithiol yw gwariant y Cynulliad ar fesurau i wella ansawdd traethau yng Nghymru.

### 4. Archwiliad o Weinyddiaeth y Grant Trafnidiaeth

Y Grant Trafnidiaeth yw'r brif ffynhonnell grant cyfalaf ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth mawr yr awdurdodau lleol. Yn 2001-2002 bydd grantiau gwerth £46 miliwn yn cael eu cynnal. Mae grantiau yn darparu cymorth i gynlluniau'r ffyrdd sy'n costio fwy na £5 miliwn, ar gyfer pecynnau trafnidiaeth integredig – yn cynnwys y rheiny sy'n ymwneud â rheilffyrdd – sy'n costio dros £1 miliwn ac ar gyfer mentrau llwybrau diogel i ysgolion. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y gwaith o reoli a gweinyddu'r cynllun.

## Addysg a Hyfforddiant

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*

### 1. Rheoli absenoldeb staff oherwydd salwch yn y sector addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru

Mae gwaith blaenorol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amlygu'r manteision gweithredol sy'n gallu deillio o reoli absenoldeb o ran salwch yn effeithiol – maes lle yr ystyriwyd, yn draddodiadol, bod y sector cyhoeddus yn perfformio'n wael. Byddai'r astudiaeth hon yn dilyn astudiaeth sydd ar waith ar hyn o bryd yn y GIG yng Nghymru.

### 2. Y defnydd effeithiol o grantiau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd

£58.2 miliwn yw cyfanswm cyllideb blynyddol y grantiau hyn (a elwir yn GEST) ar gyfer 2002-2003, (£61 miliwn ar gyfer 2003-04), y mae tua 60 y cant ohono ar ffurf cymorth grant gan y Cynulliad. Mae cyllid GEST ar gael i awdurdodau addysg lleol, a chaiff ei drefnu o dan ddeg maes gweithgaredd sydd â chyllidebau ar wahân sy'n adlewyrchu blaenoriaethau addysgol y Cynulliad. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cymorth wedi'i dargedu ar gyfer llythrennedd, rhifedd ac anghenion addysgol arbennig. Bwriedir i'r grantiau ddarparu hyfforddiant a chymorth effeithiol er mwyn cyflawni canlyniadau addysgol gwell. Bydd yr astudiaeth yn archwilio i ba raddau y mae'r grantiau yn cyflawni amcanion bwriadedig y cynllun.

*Gwaith y gellid ei gyflawni yn ystod 2004-2005*

### 3. Dysgu fel gyrfa yng Nghymru

Mae Adran Dysgu ac Arweinyddiaeth y Cynulliad, mewn partneriaeth â'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach wedi bod yn ceisio nodi a chynnal mentrau a gynlluniwyd i hybu dysgu fel gyrfa yng Nghymru. Ar hyn o bryd yng Nghymru mae wyth sefydliad addysg uwch yn darparu cyrsiau hyfforddiant i athrawon ac mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i gyflwyno mwy o ymagweddau hyblyg tuag at hyfforddiant i athrawon, yn cynnwys llwybrau yn seiliedig ar gyflogaeth i ennill statws athro cymwys, megis y rhaglen athrawon graddedig. Mae'r Asiantaeth Hyfforddi Athrawon wedi penodi ymgynghorydd sy'n gyfrifol am recriwtio a hyfforddi athrawon yng Nghymru ac sy'n gweithio o dan gontract i'r Cynulliad. Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (GTCW), a ddaeth i rym ar 1 Medi 2000, yn gyfrifol am ddarparu cyngor ar y gwaith o recriwtio, cadw a chyflenwi athrawon. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar lwyddiant y trefniadau a'r mentrau cyfredol yng Nghymru i hyrwyddo dysgu fel gyrfa ac i gadw athrawon yng Nghymru.

### 4. Ehangu cyfranogiad mewn addysg bellach ac/neu addysg uwch

Bydd yr astudiaeth yn archwilio'r camau a gymerwyd i ehangu cyfranogiad yn y sectorau addysg bellach ac/neu addysg uwch yng Nghymru. Mae'n ofynnol i'r Cynghorau Ariannu priodol wneud ymdrechion i gynyddu ac ehangu cyfranogiad, er budd cynhwysedd cymdeithasol. Mae cynllun strategol y Cynulliad, *Gwell Cymru*, yn anelu at sicrhau bod 36,000 o fyfyrwyr ychwanegol yn y sectorau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru erbyn 2003. Mae cynlluniau hepgor ffioedd ac ariannu mynediad ar waith i gynyddu ac ehangu cyfranogiad, ac mae'r Cynulliad wedi cynyddu'r ddarpariaeth ariannol sydd ar gael ar gyfer cronfeydd mynediad a chaledi ar gyfer 2001 i dros £11 miliwn. Yn erbyn y cefndir o batrymau a rhwystrau cyfredol i gyfranogiad, bydd yr astudiaeth yn edrych ar effeithiolrwydd y mentrau i ehangu cyfranogiad gan amlygu arfer da. Bydd yn canolbwyntio ar y gwaith o dargedu mesurau i grwpiau cymdeithasol ac economaidd arbennig ac ar y dull cydlynol o weithredu mentrau a anelir at ddarparwyr addysg a myfyrwyr.

## 5. Cyllid cyfalaf i ysgolion

Mae'r Grant Gwella Adeiladau Ysgol (£42 miliwn ar gyfer 2003-04) yn uniongyrchol gysylltiedig â tharged *GwellCymru.com* sef y dylai pob ysgol yng Nghymru fod mewn cyflwr corfforol da erbyn 2010. Mae Awdurdodau Lleol yn cynhyrchu cynlluniau rheoli asedau erbyn 2004. Bwriedir i Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r grant i ariannu cynlluniau adeiladau ysgol a chynlluniau gwella. Byddai'r astudiaeth hon, a fyddai'n cael ei chynnal ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio, yn edrych ar y ffordd y mae Awdurdodau Lleol yn gwario'r cyllid penodol hwn. Byddai'n cael ei chynnal yn ystod y cyfnod yng nghanol y cynllun deng mlynedd er mwyn bwydo unrhyw wersi a ddysgwyd i ail hanner y cynllun.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn ystod 2005-06 ac wedi hynny*

## 6. Uno sefydliadau yn y sector addysg bellach neu addysg uwch

Nododd adroddiad blynyddol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fod "dirywiad parhaus mewn iechyd ariannol ar draws y sector" ym 1999-2000. Mae ELWa wedi gosod targed na fydd unrhyw sefydliadau addysg uwch mewn sefyllfa o'r fath erbyn 2007. Mae adolygiad diweddar y Cynulliad o addysg uwch yn cynnig dull o uno a chydweithio, a elwir yn 'glystyrau ailgyflunio', i resymoli gorbenion a lleihau achosion o ddyblygu. Gofynnwyd am gynigion o'r sector yn 2002-03 ac addawyd £3 miliwn i gynorthwyo hyn. Mae £5 miliwn ychwanegol yn cael ei neilltuo yn 2002-04 ar gyfer y gwaith hwn. Bydd yr astudiaeth honyn archwilio uniad neu uniadau i feintioli'r arbedion a gyflawnir a'r effaith ar symleiddio gweithrediadau.

## 7. Effaith y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol

Lansiwyd Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru ym mis Chwefror 2001 i barhau hyd 2004. Darparwyd cyfanswm o £27.3 miliwn ar gyfer Strategaeth Cymru o gyllid llywodraeth ganolog. Nod y strategaeth yw lleihau nifer y plant sy'n gadael ysgol sy'n cael anhawster i ymdopi â sgiliau sylfaenol a lleihau nifer yr oedolion sy'n profi problemau â sgiliau sylfaenol yn sylweddol. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar lwyddiant y Strategaeth wrth iddi gyflawni ei ganlyniadau bwriadedig.

## 8. Gwella niferoedd y myfyrwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau a'u cyflawniad mewn addysg bellach ac/neu addysg uwch

Byddai'r astudiaeth, a gynhelir ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio, yn archwilio'r camau a gymerir i wella cyfraddau cwblhau a chyflawni myfyrwyr yng Nghymru, yn y sectorau addysg bellach ac/neu addysg uwch. Mae gwella niferoedd y myfyrwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau a'u cyflawniad yn her ar gyfer y sefydliadau dan sylw ac ar gyfer eu cynghorau ariannu (Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch – a elwir ar y cyd yn ELWa, Dysgu ac Addysgu Cymru). Pennwyd targedau perfformiad a dangosyddion perfformiad amrywiol ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Mae gwybodaeth perfformiad i Gymru yn nodi bod cyfraddau cwblhau yn gwella ar gyfer y sector addysg ôl-16 ond nid yw'r cyfraddau cyflawni yn gwella, tra bod y cyfraddau cwblhau yn gwaethygu ar gyfer myfyrwyr ifanc a myfyrwyr hyn yn y sector addysg uwch.

## 9. Gyrfaoedd Cymru

Lansiwyd Gyrfaoedd Cymru ar 1 Ebrill 2001 ac roedd yn gynnyrch o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau. Hwn yw'r gwasanaeth cynghori cyntaf i bob oed yn y DU, sy'n denu'r saith cwmni gyrfa oedd yng Nghymru (cwmnïau lleol annibynnol) yng Nghymru at ei gilydd sy'n contractio'n flynyddol gyda'r Cynulliad yn seiliedig ar gynllun busnes. Nid Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad mohono. £32 miliwn yw'r ddarpariaeth ar gyfer y saith cwmni o dan y brand Gyrfaoedd Cymru yn 2002-03. Ceir 70 o ganolfannau ledled Cymru, â'r nod o ddarparu mynediad i wybodaeth, cyngor ac arweiniad annibynnol a diduedd am yrfaoedd, i helpu pobl ifanc ac oedolion i wneud penderfyniadau hyddysg a rhesymol ynglyn ag opsiynau dysgu a gyrfaoedd. Byddai'r astudiaeth yn archwilio effeithiolrwydd eu gwaith gan ddangos sut y maent yn cydbwyso anghenion grwpiau penodol yn erbyn anghenion mwy cyffredinol y mwyafrif. Byddai hefyd yn archwilio os/sut bydd eu gwaith yn gorgyffwrdd â darparwyr eraill (e.e. sgiliau sylfaenol).

## 10. Estyn – caffael arolygwyr cofrestredig

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond caiff ei ariannu gan y Cynulliad o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu ystod eang iawn o ddarparwyr addysg, yn cynnwys ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chwmnïau Gyrfaoedd Cymru. Cyflawnir rhai o'r dyletswyddau statudol yma drwy waith a wneir yn arbennig gan staff Estyn (tua 60 o arolygwyr ). Cyflawnir gwaith arall gan arolygwyr annibynnol sy'n arolygu ysgolion a meithrinfeydd unigol o dan gontract i Estyn. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar y broses o gaffael Arolygwyr Cofrestredig sy'n rhoi cyfrif am tua hanner o'u darpariaeth flynyddol o £10 miliwn.

## Datblygiad Economaidd

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*

**1. Astudiaeth ddilynol o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd**

Byddai'r astudiaeth hon yn asesu'r cynnydd wrth reoli'r rhaglen ers cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Mwyhau'r Buddion i Gymru* ym Mehefin 2002.

*Gwaith y gellid ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005*

**2. Cymorth ariannol i fusnesau bach**

Yn ddiweddar, diwygiodd y Cynulliad y ddarpariaeth o gymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau bach mewn ymateb i'r Adolygiad o Wasanaethau Busnes. I raddau helaeth, mae hyn wedi cynnwys rhesymoli cynlluniau sy'n bodoli eisoes i ddarparu un ffynhonnell cymorth ar gyfer grantiau o faint gwahanol, ag awdurdodau lleol yn darparu ar gyfer grantiau sy'n llai na £5,000, cynllun newydd y Cynulliad, sef Grant Buddsoddi sy'n darparu ar gyfer grantiau rhwng £5,000 a £50,000, a'r RSA ar gyfer grantiau dros £50,000. Yn ogystal, crëwyd Cyllid Cymru plc, is-gwmni sy'n rhan o Awdurdod Datblygu Cymru a gaiff ei ariannu ar y cyd gan yr UE a'r sector preifat, i ddarparu benthyciadau a chyllid ecwiti i fusnesau bach a chanolig eu maint yn ardal Amcan 1. Trefnir bod astudiaeth ar RSA yn cychwyn yn 2002-03. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio dull gweithredu un o'r cynlluniau eraill i Gymru gyfan. Byddai'n cwmpasu materion megis rhwyddineb mynediad i ymgeiswyr, gweithdrefnau gwerthuso, rheoli risgiau, cysylltiadau â chynlluniau eraill, monitro allbynnau a threfniadau arfarnu ar gyfer effaith ehangach y cynllun ar y grwpiau a dargedir.

**3. Effeithiolrwydd y gwasanaeth porth busnes (Cyswllt Busnes)**

Gwasanaeth ffôn a Rhyngrwyd yw Cyswllt Busnes sy'n darparu pwynt mynediad i fusnesau i'r ystod lawn o wasanaethau cynnal busnesau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr amcan yw darparu cyngor a gwybodaeth busnes gwrthrychol, arbenigol i ddefnyddwyr ar y gwasanaethau sydd ar gael, ac os y bo'n briodol, eu cyfeirio at ffynonellau cymorth arbenigol. Yn dilyn *Adolygiad o Wasanaethau Busnes* y Cynulliad, daeth trefniadau diwygiedig i rym ar 1 Ebrill 2002. Bwriedir i'r rhain ddarparu system fwy integredig a syml â safonau ansawdd cenedlaethol. Bellach caiff y gwasanaeth ei reoli gan Awdurdod Datblygu Cymru, sy'n gweithredu fel y porth cychwynnol ac yn contractio gyda 17 o sefydliadau i ddarparu cyngor mwy arbenigol ar y gwasanaethau sydd ar gael. Bydd y Cynulliad yn darparu tua £4 miliwn ar gyfer gwasanaeth y porth yn 2002-03. Byddai'r astudiaeth yn archwilio effeithiolrwydd y rhaglen wrth iddi gyflawni ei amcanion yng nghyd-destun y gwasanaethau cymorth ehangach a ddarperir i fusnesau yng Nghymru.

**4. Dangosyddion perfformiad Awdurdod Datblygu Cymru**

Byddai'r astudiaeth yn adolygu perfformiad yr Asiantaeth o'i gymharu â'i thargedau, yn cynnwys cwmpas a diffiniad y targedau perfformiad a'r broses o fesur a gwerthuso perfformiad gwirioneddol. Byddai'n asesu p'un a yw'r targedau yn darparu mesur realistig a phriodol o berfformiad ar gyfer yr ystod lawn o weithgareddau'r Asiantaeth, digonolrwydd systemau gwybodaeth a'r defnydd o'r data a gesglir.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2005-2006 neu wedi hynny*

**5. Hyrwyddo masnach**

Mae Masnach Cymru Ryngwladol yn rhan o'r Cynulliad ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo masnach ryngwladol, codi ymwybyddiaeth busnes o gyfleoedd busnes ymhlith cwmnïau yng Nghymru a'u helpu i

ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol. Gan weithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru, mae'n bwriadu atgyfnerthu ei phresenoldeb dramor. Byddai'r astudiaeth yn archwilio effeithiolrwydd gweithgareddau hyrwyddo masnach y Cynulliad ynghyd ag effaith ei rwydwaith rhyngwladol o swyddfeydd a chynrychiolwyr.

**6. Cysylltiadau addysg-busnes**

Mae'r Cynulliad, y Cyngor Cyllido Addysg Uwch ac Awdurdod Datblygu Cymru yn noddi sawl rhaglen i gysylltu ysgolion a cholegau (yn enwedig sefydliadau addysg uwch) gyda busnesau, er cydfuddiant – er enghraifft drwy gynlluniau lleoliadau i raddedigion a chanolfannau rhagoriaeth. Yn aml mae gan y rhaglenni hyn y potensial i gyflawni newid buddiannol mawr am gost ariannol gweddol fach. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor dda y mae mentrau a phrojectau arbennig yn cyflawni eu hamcanion a'u heffeithiau bwriadedig, ac i ba raddau y ceir cyfle i gyfeirio a chydlynu eu gweithrediadau a'u hamcanion mewn dull strategol ymhellach.

**7. Darpariaeth adeiladau busnes**

Mae'r sector cyhoeddus ym ymwneud yn sylweddol â'r broses o ddarparu eiddo diwydiannol yng Nghymru, yn bennaf drwy Awdurdod Datblygu Cymru sy'n gwario tua £23 miliwn y flwyddyn ar ddatblygiadau wedi'u teilwra'n arbennig a datblygiadau hapfasnachol. Bydd rhaglen Amcan 1 yn darparu £37 miliwn ar gyfer safleoedd ac eiddo rhwng nawr a diwedd 2006, â £34 miliwn bellach ar gyfer naw safle cyflogaeth strategol ledled Cymru. Er bod y symiau hyn yn sylweddol, ac y ceir prinder canfyddedig o eiddo sydd ar gael yn barod, polisi Ewropeaidd a pholisi Cymru yw symud ffocws ymyrraeth y sector cyhoeddus o'r ddarpariaeth o seilwaith i fesurau cymorth busnes a dargedir yn well. Gallai'r astudiaeth fod yn eang ei chwmpas, ond gallai ganolbwyntio ar reoli costau a chontractau, ar safon a chost rhedeg yr adeilad a ddarperir, a'r dulliau ariannu a ddefnyddir (grant neu adeiladu uniongyrchol). Gallai hefyd asesu pa mor dda y mae'r eiddo yn bodloni anghenion grwpiau arbennig megis busnesau bach neu fusnesau sy'n tyfu a'r rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**8. Bwrdd Croeso Cymru: gweithgaredd marchnata**

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn wynebu newid sylweddol yng ngraddfa ei weithgaredd marchnata, gyda chyllideb o £42 miliwn dros y tair blynedd i 2004-05, â llawer ohono wedi'i ariannu gan ffynonellau Ewropeaidd. Byddai'r astudiaeth yn adolygu'r strategaeth farchnata a chynlluniau gwario cysylltiedig, trefniadau rheoli contract a threfniadau gwerthuso.

**9. Cysylltedd band eang**

Mae Cymru ar ei hôl hi o gymharu â'r rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig o ran mynediad i gysylltiadau rhyngrwyd band eang, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle y mae'r ddarpariaeth o seilwaith cebl yn wasanaeth costus ac anfuddiol i'r sector preifat o ganlyniad i'r boblogaeth fach a gwasgaredig. Fodd bynnag, mae'r broses o hyrwyddo technolegau gwybodaeth a chyfathrebu yn thema allweddol o fewn strategaeth datblygu economaidd y Cynulliad, ac mae mynediad eang, fforddiadwy i gysylltiadau rhyngrwyd band eang yn allweddol yn hyn o beth. Mae technoleg yn datblygu'n gyflym yn y maes hwn ac ar hyn o bryd mae'r Cynulliad yn ystyried y ffordd orau i wario'r £100 miliwn sydd ar gael ar gyfer gwella cysylltedd. Byddai'r astudiaeth yn adolygu'r broses o weithredu'r strategaeth mewn perthynas â dethol technolegau, rheoli contractau a chyflawni cyfradd well o gysylltiadau band eang.

**10. Ynni adnewyddadwy**

Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i gyfrannu tuag at nod y Deyrnas Unedig sef gostyngiad o 20 y cant mewn gollyngiadau carbon diocsid erbyn 2010. Mae gan Gymru botensial sylweddol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy i helpu i gyflawni'r targed hwn. Yn ogystal â chynhyrchu buddiannau amgylcheddol, byddai'r broses o ddatblygu'r sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn cyfrannu at seilwaith ynni gwell yng nghefn gwlad Cymru ac at greu mwy o swyddi. Mae tystiolaeth yn awgrymu, er bod y potensial

ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn uchel, mae'r broses o ddarparu'r dechnoleg berthnasol yn isel. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar weithrediad y strategaeth ynni adnewyddadwy sy'n deillio o adolygiad cyfredol y Cynulliad, yn cynnwys i ba raddau y mae rhaglenni'r Cynulliad yn ffafrio'r broses o hyrwyddo ynni adnewyddadwy (o wynt, tonnau, ffynonellau dwr a haul) dros ynni nad yw'n adnewyddadwy (o olew, nwy naturiol, glo a phwer niwclear). Byddai'n canolbwyntio ar gamau a gymerir yng Nghymru i gynnal y broses o ddatblygu ynni adnewyddadwy ac i hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

## Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*

### 1. Project Jigsaw

Rhaglen dair blynedd gwerth £16 miliwn a lansiwyd yn Ebrill 1999 yw Cydfenter Gwasanaethau'r Llywodraeth ar draws Cymru (Jigsaw), a anelir at wella'r gwaith o weinyddu CAP yng Nghymru, gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau a lleihau costau cynnal. Ei nod yw uno gwasanaethau'r llywodraeth yng nghefn gwlad Cymru o dan y rhwydwaith o swyddfeydd lleol hygyrch presennol, gan ddarparu gwasanaeth siop un cam effeithiol i ffermwyr ac i eraill mewn ardaloedd gwledig. Bydd yr astudiaeth yn archwilio pa mor effeithiol yw'r project hwn, sy'n sylfaen bwysig ar gyfer gweithredu cynlluniau eraill.

### 2. Taliadau iawndal ar gyfer y diciau

Cyfeiriodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar argyfwng clwy'r traed a'r genau, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2002, at yr anhawster a gafwyd wrth geisio rheoli costau iawndal i ffermwyr am anifeiliaid a laddwyd. Yn wahanol i glwy'r traed a'r genau, y Cynulliad sy'n gyfrifol am dwbercwlosis mewn anifeiliaid. Disgwylia dalu iawndal sydd werth tua £4 miliwn i ffermwyr yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, cynnydd decplyg yn y pum mlynedd diwethaf. Byddai'r astudiaeth hon yn edrych ar y rhesymau am y cynnydd hwn, ynghyd ag effeithiolrwydd y system gyfredol.

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005*

### 3. System Weinyddu a Rheoli Integredig

Cyflwynwyd y System Weinyddu a Rheoli Integredig (IACS) gan Reoliad yr UE ym 1993. Dull gwrth-dwyll a rheoli gwariant ydyw i bob pwrpas sy'n gosod rheolau y dylai ymgeiswyr o dan gynlluniau sy'n gysylltiedig â IACS gydymffurfio â hwy.Mae'n cynnwys cosbau y dylid eu cymhwyso ar gyfer achosion o beidio â chydymffurfio â gofynion y cynllun. Byddai methiant i wirio ceisiadau yn drylwyr neu i gymhwyso cosbau yn golygu bod y Cynulliad yn agored i waharddiad gan y Comisiwn. Byddai ein hastudiaeth yn edrych ar y dull o weinyddu system IACS, nifer y cosbau a'r rhesymau dros gosbau, a'r gost a dalwyd gan y Cynulliad hyd yn hyn. Hwyrach y byddwn am ystyried effaith mapiau digidol ar ansawdd IACS a'r effeithiau a gafodd y data cywir ar daliadau.

### 4. Cynllun Adfer Cefn Gwlad

Nod y Cynllun Adfer Cefn Gwlad yw helpu economi Cymru i wella rhag effeithiau clwy'r traed a'r genau. Mae'r Cynulliad wedi dyrannu £65 miliwn i ariannu'r cynllun dros y tair blynedd nesaf. O'r swm hwn, mae £60 miliwn yn arian newydd ac ailflaenoriaethwyd y £5 miliwn sy'n weddill gan asiantaethau mewn ymateb i'r argyfwng. Caiff pob cyllideb ei gweinyddu gan gorff arweiniol, fel Awdurdod Lleol, Awdurdod Datblygu Cymru, Menter Coedwigaeth, Bwrdd Croeso Cymru ac ati. Byddai ein hastudiaeth yn edrych ar y cymorth a ariannwyd yn gyhoeddus a ddarparwyd ac ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o weinyddu'r cyllid.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2005-2006 ac wedi hynny*

### 5. Cyswllt Ffermio

Nod y cynllun Cyswllt Ffermio, a ddechreuwyd yn 2001, yw rhoi'r cyfle, y wybodaeth a'r arbenigedd i fusnesau ffermio i'w helpu i wneud penderfyniadau hyddysg ynglŷn â dyfodol eu busnes. Mae'n gynllun eang ei gwmpas â chyllideb flynyddol o £21 miliwn, ac mae'n cynnwys nifer o bartneriaid, yn bennaf y Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru, ond hefyd ELWa, y Comisiwn Coedwigaeth, Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill. O dan y cynllun, darperir adolygiad busnes tri diwrnod i

ffermwyr, yn arwain at gynllun busnes. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, dechreuwyd ar 2,127 o adolygiadau, a chwblhawyd 571 o gynlluniau busnes.Byddai'r astudiaeth yn ystyried i ba raddau y mae'r cynllun yn cyflawni ei amcanion.

**6. Adolygiad o Gynllun Premiwm Blynyddol Defaid**

Diben y cynllun premiwm blynyddol defaid yw talu iawndal i gynhyrchwyr am y graddau y bydd cyfartaledd prisiau am gig oen yn gostwng yn is na'r pris sylfaenol a bennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae taliadau mewn perthynas â'r cynllun hwn yn agos i £80 miliwn y flwyddyn. Yn ogystal, o dan becyn diwygio a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2002, dyrennir cyllid ychwanegol i aelod wladwriaethau er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd o ran eu dull o gynnal y sector defaid – amcangyfrifir mai tua £3.5 miliwn yw cyfran Cymru. Caiff y cynllun ei ariannu'n llawn gan y Comisiwn Ewropeaidd, ond gall methiant i gydymffurfio â rheoliadau ac arweiniad ar reolaeth ariannol gadarn arwain at ostyngiad yn ad-daliad y Comisiwn; ym 1993-96, £29.2 miliwn oedd cyfanswm y gwrthodiad hwn, mwy na Lloegr neu'r Alban a thua 5.8 y cant o daliadau. Byddai'r astudiaeth hon yn adeiladu ar adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2000 a oedd yn ystyried ansawdd y broses o weinyddu'r cynllun yn Lloegr. (Ym mis Gorffennaf 2002, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion am ddiwygio'r CAP mewn dull radical. Pe fabwysiadwyd y diwygiadau, byddai'n dileu pob cynllun cymhorthdal uniongyrchol, gan osod un taliad yn eu lle, yn seiliedig ar daliadau hanesyddol i ymgeiswyr.)

**7. Adolygiad o Dir Mynydd**

Tir Mynydd yw cynllun olynol y Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel (cyllideb o £33 miliwn yn 2001-02). O dan Tir Mynydd, mae taliadau yn seiliedig ar y tir yn hytrach na nifer y gwartheg a'r defaid tir uchel. Gwnaed y taliadau cyntaf o dan y cynllun yn ystod gwanwyn 2001. Oherwydd gall rhai ffermwyr elwa ar draul eraill, rhoddodd y Cynulliad drefniadau ar waith i leddfu effaith y newid yn ystod y tair blynedd cyntaf. 2004 fydd y flwyddyn gyntaf heb y "rhwyd ddiogelwch". Bydd ein hastudiaeth yn canolbwyntio ar y broses o weinyddu'r trefniadau newydd.

## Llywodraeth Leol a Thai

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005 neu wedi hynny*

### 1. Rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

Ym mis Tachwedd 1998, daeth yr hen Swyddfa Gymraeg yn gyfrifol am swyddogaethau, asedion a chyfrifoldebau Tai Cymru, a throsglwyddwyd y cyfrifoldebau hyn yn ffurfiol i'r Cynulliad ym 1999. Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr Tai y Cynulliad yn gyfrifol am reoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru, sef un o brif swyddogaethau'r Gorfforaeth Dai yn Lloegr. Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad yn cyflwyno'r gyfundrefn gwerth gorau i sector y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar broses y Cynulliad o reoleiddio perfformiad ariannol landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn enwedig eu proses o reoli risg ariannol.

### 2. Trosglwyddo stoc tai cyngor

Mae'r Cynulliad yn amcangyfrif bod ôl-groniad gwerth £750 miliwn o waith trwsio a moderneiddio hanfodol ar dai cyngor yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cynnal adolygiad o'r broses o drosglwyddo stoc tai a oedd yn ystyried y polisi ynglyn â throsglwyddo stoc tai awdurdod lleol i berchnogaeth gymunedol fel ffordd o gynhyrchu'r buddsoddiad angenrheidiol. Cafodd canlyniadau'r adolygiad eu hymgorffori yn Strategaeth Tai Cenedlaethol y Cynulliad, a gyhoeddwyd ym Medi 2001. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar ganlyniadau'r adolygiad hwn ac ar lwyddiant unrhyw drosglwyddiadau o'r fath wrth leihau'r baich ar gynghorau lleol ac ar y Cynulliad.

### 3. Cynllun Homebuy

Cyflwynwyd Homebuy i Gymru yn ystod canol y 1990au i annog dull rhad o brynu tai. Mae'n fath o fenthyciad ecwiti lle y bydd landlord cymdeithasol cofrestredig yn talu rhan o gost gychwynnol y pryniad, gan ddefnyddio Grant Tai Cymdeithasol a chaiff ei drin fel benthyciad di-log i'r prynwr. Ar yr adeg gwaredu, neu'n gynharach os bydd y prynwr yn dewis, bydd y landlord cymdeithasol cofrestredig yn derbyn y ganran berthnasol o werth cyfredol y farchnad. Ailfuddsoddir y derbyniadau hyn yn effeithiol fel Grant Tai Cymdeithasol. Mae'r benthyciad ecwiti yn 30 y cant o gost cymeradwy y pryniad ond gellir ei gynyddu i 50 y cant mewn ardaloedd gwledig neu o fewn cynlluniau ailddatblygu tai cymdeithasol er mwyn delio â thai a brynwyd o dan hawl i brynu. Mae'r defnydd o homebuy yn fater i'w gadarnhau gan yr awdurdod lleol gan ystyried cyfanswm y Grant Tai Cymdeithasol a ddyrennir iddynt yn flynyddol. Yn 2001-02 defnyddiwyd £4.6m i gynnal y broses o brynu 238 o dai mewn 15 awdurdod lleol. Byddai'r astudiaeth yn archwilio'r broses o weinyddu'r cynllun, ac i ba raddau y mae'n cyflawni ei amcanion.

## Diwylliant, chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

*Gwaith y gellid ei gyflawni yn ystod 2003-2004*

### 1. Arian loteri gan Gyngor Chwaraeon Cymru

SPORT LOT yw Cronfa Chwaraeon Genedlaethol y Loteri i Gymru. Mae'n darparu tua £12.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer projectau cyfalaf er mwyn iddynt ddatblygu cyfleusterau ac ar gyfer projectau nad ydynt yn rhai cyfalaf sydd â'r nod o annog mwy o bobl i gymryd rhan, datblygu safonau rhagoriaeth a gwella mynediad i grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol. Bellach mae canolbwynt arian loteri yn symud o brojectau cyfalaf i refeniw, ac o annog pobl i gymryd rhan yn gyffredinol i brojectau a dargedir at leihau eithrio cymdeithasol. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor dda y mae'r cyllid yn cael ei reoli, p'un a gynhelir projectau penodol, a pha mor effeithiol yw eu cyfraniad at strategaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer chwaraeon.

*Gwaith y gellid ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005 neu wedi hynny*

### 2. Ehangu mynediad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru sawl menter ar gyfer ehangu mynediad i'w chasgliadau. Nod Menter y Llyfrgell Agored yw denu mwy o ymwelwyr drwy weithio'n agosach â sefydliadau addysgol a thrwy greu canolfan ymwelwyr. Mae Menter y Llyfrgell Ddigidol yn gosod mwy o ddeunydd y Llyfrgell ar y rhyngrwyd. Yn ogystal â'r mentrau newydd hyn, mae'r Llyfrgell yn parhau i fenthyg deunydd ar gyfer arddangosfeydd teithiol. Byddai'r astudiaeth yn canolbwyntio ar lwyddiant y mentrau hyn wrth ehangu mynediad, pa mor effeithiol y cânt eu rheoli ac i ba raddau mae'r Llyfrgell yn gwneud y mwyaf o ffynonellau incwm allanol er mwyn ariannu ei mentrau.

### 3. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg

Cwblhawyd yr adolygiad o'r iaith Gymraeg, "Ein hiaith: ei dyfodol", yn ystod haf 2002, â'r nod o hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Byddai angen i astudiaeth o'r broses o hyrwyddo'r iaith Gymraeg symud i ffwrdd oddi wrth dechnegau gwerth am arian safonol, sy'n canolbwyntio ar ddarbodusrwydd ac effeithlonrwydd ac edrych ar effeithiau rhyngweithiol addysg ddwyieithog, mentrau i ddysgwyr, cynlluniau iaith statudol i gyrff cyhoeddus, datblygiad economaidd a pholisi cynllunio. Byddai'n gyfle i weld sut mae llywodraeth gydgysylltiedig yn gweithio'n ymarferol. Byddai'r astudiaeth arfaethedig yn canolbwyntio ar un neu fwy o'r mentrau penodol a gaiff eu harwain gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd.

### 4. Cyngor y Celfyddydau – gwaith dilynol

Ym mis Tachwedd 2001 cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar ddull Cyngor Celfyddydau Cymru o redeg y Ganolfan Celfyddydau Gweledol, project y bu'n rhaid ei gau ar ôl blwyddyn o ganlyniad i anawsterau ariannol. Cyflawnwyd gwaith dilynol ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol a gyhoeddodd ei adroddiad ei hunan, yn cwmpasu un ar ddeg o argymhellion eang eu cwmpas. Cadarnhaodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg yr argymhellion hyn ym mis Gorffennaf. Byddai astudiaeth ddilynol yn asesu i ba raddau y mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gweithredu'r un ar ddeg o argymhellion hynny.

### 5. Y Cyngor Chwaraeon – meysydd blaenoriaeth

Blaenoriaethau'r Cyngor Chwaraeon yw creu mwy o gyfleoedd a chyfleoedd cyfartal i bobl ifanc, yn enwedig menywod a merched a'r rhai sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol, ynghyd â datblygu rhagoriaeth. Byddai'r astudiaeth yn archwilio llwyddiant un neu fwy o'r projectau a anelir at gyflawni amcanion y Cyngor Chwaraeon yn y maes hwn.

## 6. Canolfan Mileniwm Cymru

Bydd y Ganolfan yn cael ei hadeiladu ym Mae Caerdydd a bydd yn llwyfan i'r Celfyddydau yng Nghymru, yn gartref i Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru ac yn darparu cyfleusterau ar gyfer ystod o sefydliadau diwylliannol eraill. Roedd gan y Ganolfan gost cyfalaf arfaethedig o £75 miliwn, sydd bellach wedi codi i £104 miliwn, y bydd £43 miliwn yn dod o'r sector cyhoeddus a £10 miliwn o arian y loteri. Mae'r gwaith adeiladu wedi cychwyn a bwriedir i'r Ganolfan agor ar ddiwedd 2004. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor dda y rheolwyd y project a pha mor dda yr oedd y Ganolfan yn gweithredu yn ystod ei blynyddoedd cynnar, yn enwedig o ran costau gweithredu a nifer yr ymwelwyr.

## Gweinyddiaeth y Cynulliad ac astudiaethau trawsbynciol

*Gwaith y gellid ei gyflawni yn ystod 2003-2004*

### 1. PFI yn y GIG

Byddai'r astudiaeth arfaethedig yn astudio dau gytundeb PFI ar wahân, ar gyfer ysbytai Cas-gwent a Dewi Sant. Byddai'n ystyried pa mor gadarn y mae'r Ymddiriedolaethau a'r Cynulliad wedi cadarnhau bod y cytundeb PFI yn cynrychioli gwerth da i'r trethdalwr a pha mor dda y gwnaeth yr Ymddiriedolaethau a'r consortia adeiladu reoli cam adeiladau'r project. Byddai ystyried dau gytundeb yn y ffordd hon yn galluogi dull o gymharu rhwng y ddau.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 neu wedi hynny*

### 2. Caffael siambr ddadlau'r Cynulliad Cenedlaethol (gwaith dilynol)

Yn 2001 penderfynodd y Cynulliad ohirio'r gwaith o adeiladu siambr ddadlau newydd yn dilyn cynyddiadau sylweddol mewn amcangyfrifon cost, gan derfynu cyflogaeth y pensaer. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio'r pwnc unwaith y bydd yr adeilad newydd wedi'i gwblhau ac ar waith. Byddai'n adolygu gweithdrefnau rheoli project yn erbyn arfer gorau a'r rhesymau dros fethiant y berthynas â'r pensaer. Byddai'r archwiliad yn gwneud defnydd llawn o adolygiadau blaenorol y project, yn cynnwys yr adroddiad blaenorol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Trefniadau adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru* (Tachwedd 2000).

### 3. Llywodraeth ar y we yng Nghymru

Mae'r Cynulliad wedi achub y cyfle i geisio sicrhau'r defnydd mwyaf o dechnoleg y rhyngrwyd. Bydd yr astudiaeth yn cymhwyso canfyddiadau astudiaeth 1999 y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddefnydd y llywodraeth o'r dechnoleg hon i asesu'r cynnydd a wneir yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn cynnwys y cyrff a noddir gan y Cynulliad gan ddadansoddi i ba raddau y cyflawnwyd darpariaeth electronig o wasanaethau cyhoeddus.

### 4. Datblygu cynaliadwy

Datblygu cynaliadwy – hyrwyddo datblygiadau sy'n bodloni anghenion y genhedlaeth bresennol heb beryglu gallu cenhedlaeth y dyfodol – yw un o themâu trawsbynciol cyffredinol y Cynulliad ac mae'r Cynulliad yn unigryw yn hyn o beth oherwydd mai Cymru yw'r unig genedl yn yr UE sydd â datblygiad cynaliadwy yn rhan o'i chyfansoddiad. Mae hyn yn golygu ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn holl weithredoedd y Cynulliad, a dylanwadu ar sefydliadau eraill i wneud yr un peth. Byddai'r astudiaeth hon yn asesu dull y Cynulliad o ddarparu a buddsoddi mewn datblygiad cynaliadwy drwy lywodraeth gydgysylltiedig. Byddai'r astudiaeth yn dethol nifer o brojectau datblygiad cynaliadwy y Cynulliad megis y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, Cronfa Cynaliadwyedd Ardoll Gyflawn, Cynllun Gofodol Cymru a Chronfa Datblygu'r Amgylchedd gan asesu sut detholwyd y projectau i hyrwyddo dull cydgysylltiedig o weithio, sut y bwriedir gwerthuso perfformiad ac effaith y projectau ar y broses o ddarparu gwasanaethau a chynyddu effeithlonrwydd o fewn adrannau'r Cynulliad.

### 5. Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

Dechreuodd rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ystod haf 2001, yn dilyn ymgynghoriad helaeth. Caiff y rhaglen ei thargedu'n bennaf at y 100 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a bwriedir iddi helpu cymunedau i adfywio eu hunain. Mae'n hyrwyddo partneriaethau ar y lefel leol i helpu cymunedau i achub y blaen ac adeiladu ar eu gallu i greu cynaliadwyedd. £83 miliwn yw'r gyllideb gychwynnol dros y tair blynedd gyntaf o'r hyn y disgwylir iddi fod yn rhaglen tymor hir. Byddai'r astudiaeth yn archwilio'r broses o weinyddu'r rhaglen ac i ba raddau y bu'n cyflawni ei hamcanion.